SAFLE TREFTADAETH Y BYD Llechi Cymru Wales Slate WORLD HERITAGE SITE

Adroddiad blynyddol Llechi Cymru: cliciwch yma

The Slate Landscape of Northwest Wales Inscribed on the World Heritage List in 2021

**Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru**

**Nodiadau cyfarfod: 06.03.2026**

**Ymddiheuriadau:**
Phil Bushby (Amgueddfa Cymru), Jonathan Cawley (APCE), Sian Rees (ICOMOS), Catrin Wagner (Partneriaeth Dyffryn Peris), y Cyng. Stephen Churchman (Cyngor Cymuned Dolbenmaen)

**Yn bresennol**:
Yr Arglwydd Dafydd Wigley (Cadeirydd), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), y Cyng. Medwyn Hughes (Cyngor Gwynedd), Kate Roberts (Cadw), Michael Bewick (JW Greaves), Helen Goddard (Amgueddfa Lechi), Naomi Jones (APCE), Ceri Williams (Castell Penrhyn), y Cyng. Elwyn Evans (Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant), Dafydd Roberts (Partneriaeth Ogwen / Dyffryn Ogwen), Roland Evans (Cyngor Gwynedd), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Lucy Thomas (Cyngor Gwynedd), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd), Nia Haf Lewis (Cyngor Gwynedd), Dan Amor (Cyngor Gwynedd)

| | |
|---|---|
| **1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau** DW<br><br>• Nodwyd yr ymddiheuriadau a chroesawodd DW bawb | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi** DW<br><br>• Mae'r holl gamau gweithredu wedi cael eu dilyn<br>• Dim ymateb gan Dŵr Cymru (cynrychiolaeth, strwythur llywodraethu)<br>• Cam Gweithredu DA: gofyn i NJ am enw cyswllt amgen yn Dŵr Cymru i gysylltu | **DA: Dŵr Cymru, NJ** |
| **3. Adolygiad cynllun rheoli** RE, HJ<br><br>• Cyflwyniad (RE, HJ)<br>• Rydym wedi bod yn cynnal adolygiad canol ffordd o'r cynllun rheoli STyB<br>• Crynhowyd methodoleg yr adolygiad<br>• Atodiadau (cywiriadau a diweddariadau) yn hytrach nag ailysgrifennu'n llawn<br>• Newidiadau i'r cynllun gweithredu STyB cyfatebol<br>• Mae partneriaid ac is-grwpiau wedi bod yn mewnbynnu i'r broses<br>• Roedd y cyflwyniad yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu, gan dynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf<br>• Mae'r grŵp gweithredu yn argymell bod y Bwrdd Partneriaeth yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig<br>• Adborth cadarnhaol gan UNESCO ar ein dull o adolygu<br>• Cam Gweithredu DA: Cylchredeg y cyflwyniad i aelodau'r Bwrdd<br>• Rydym wedi datblygu dull mwy effeithiol o fesur effaith y dynodiad ar Iaith:<br>- Monitro gwell<br>- Rhannu arfer gorau gyda'r rhaglen ARFOR<br>- Byddwn yn cadw mewn cysylltiad gydag APCE, sy'n gwneud gwaith tebyg | **DA: cyflwyniad** |

| | |
|---|---|
| - Byddwn yn rhoi gwybod i NHL am gynnydd<br>- Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â monitro'r gwaith o gofnodi enwau lleoedd Cymraeg, gan weithio gyda CBHC. Mae APCE yn gwneud gwaith ar hyn hefyd, mae LleCHI LleNI wedi cydweithio gydag APCE ar ddarparu sesiynau galw heibio<br>- Mae'r Amgueddfa Lechi hefyd yn awyddus i fod yn ymwneud â gwaith ar iaith / enwau lleoedd<br>• Sgiliau traddodiadol:<br>- Mae'r prosiect LleCHI LleNI bellach yn canolbwyntio ar hyn, fel y mae'r Amgueddfa Lechi ac APCE<br>- Rydym hefyd yn sgwrsio â rhanddeiliaid eraill (e.e. Coleg Merion Dwyfor, Talyllyn)<br>- Gellid cofnodi sgiliau traddodiadol ar restr Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol<br>• Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth i fabwysiadu'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun rheoli STyB | |
| **4. Diweddariad STyB**<br><br>**Is-grŵp Cadwraeth STyB**<br><br>**Trosolwg** KR (Cadeirydd)<br><br>• Fe wnaeth AB (Cadw) gadeirio'r cyfarfod diweddaraf<br>• Mae'r grŵp wedi bod yn cyfrannu at broses adolygu'r cynllun rheoli STyB<br>• Rhoddodd KR grynodeb o'i rôl newydd. Bydd yr olynydd yn rôl flaenorol KR yn cael ei benodi yn fuan<br>• Mae'r grŵp wedi bod yn diweddaru'r tabl cyflwr cadwraeth. Bydd y blaenoriaethau ynddo yn siapio amcanion cadwraeth yn y dyfodol<br>• Mae'r grŵp hefyd yn trefnu gweithdy ar ddatblygu canllawiau ar reoli hen dirweddau chwarela. Cytunwyd y byddai awdurdodau cynllunio, tirfeddianwyr a rhan-ddeiliaid eraill yn elwa o'r canllawiau hyn. Cam Gweithredu DA: atgoffa aelodau'r grŵp i gyflwyno manylion cyswllt ar gyfer cyfranwyr arfaethedig i'r gweithdy<br><br>**Is-Grŵp Buddion STyB**<br><br>**Trosolwg** MB (Cadeirydd)<br><br>• Crynhodd MB ein gweithdai thematig:<br>- Strategaeth Porth a Rhwydwaith – mae rhai ardaloedd o'r STyB yn barod i'w hyrwyddo, a rhai ddim. Mae'n rhaid gwneud y marchnata mewn modd sy'n sensitif i anghenion cymunedau<br>- Roedd rhai pryderon ynghylch hen waith dehongli (e.e. arwyddion sydd wedi dyddio)<br>- Mabwysiadwyd y model Eco Amgueddfa wrth symud ymlaen<br>• Crynhodd MB gyfarfod diweddaraf yr is-grŵp buddion STyB:<br>- Penodwyd swyddog treftadaeth gymunedol Blaenau Ffestiniog<br>- Tîm twristiaeth Gwynedd yn gweithio llawer gyda ni ar hyn o bryd<br>- Anogwyd FhR i fabwysiadu brandio STyB<br>- Roedd pryderon ynglŷn â 'bwlch yn y ddarpariaeth' tra bod yr Amgueddfa Lechi ar gau, ac effaith hynny ar fusnesau, niferoedd ymwelwyr ac ati<br>• Cytunwyd bod angen i Llechi Cymru gyflymu ei bresenoldeb digidol o ran hyrwyddo'r STyB. Yr Amgueddfa Lechi yn hapus i gydweithio ar hyn. Gallai Cyngor Gwynedd arwain ar hyn, ond bydd angen help a chyfuno adnoddau gan bartneriaid er mwyn cyrraedd ymhellach gyda'i gilydd<br>• Mae targedu ymwelwyr tramor yn flaenoriaeth<br>• Mae angen i ni hyrwyddo'r ddarpariaeth bresennol a rhestru lle gall pobl | **DA: atgoffa** |

| | |
|---|---|
| fynd. Gallai hyn gynnwys gweithio gydag Eryri Mynyddoedd a Môr (e.e. comisiynu erthyglau ar themâu penodol), neu sefydlu grŵp tasg a gorffen i gyflawni amcanion tymor byr<br>• Mae darpariaeth o fewn y prosiect LleCHI LleNI ar gyfer hyn (gwefan, presenoldeb digidol, strategaeth Porth a Rhwydwaith, teithlen) ond byddem yn croesawu unrhyw gymorth gan ein Partneriaeth<br>• Cam Gweithredu RE: cysylltu â LleCHI LleNI, Yr Amgueddfa Lechi a Thîm Twristiaeth Gwynedd er mwyn bwrw ymlaen â materion | **RE: LleCHI LleNI, Amgueddfa Lechi, Tîm Twristiaeth Gwynedd** |
| **5. Diweddariad am ariannu** HJ, LT<br><br>**Prosiect Llewyrch o'r Llechi** HJ<br><br>• Mae proses symleiddio wedi'i mabwysiadu gan Lywodraeth y DU<br>• Mae allbynnau newydd wedi'u cytuno gyda phob partner<br>• Mae prosiectau i gyd ar y gweill neu wedi'u cwblhau<br>• Disgwylir yr adroddiad gwerthuso interim cyntaf yn fuan<br>• Mae pecyn ehangach o gymorth ar draws cymunedau eraill yn y dirwedd lechi yn mynd rhagddo<br>• Cam Gweithredu DA: cylchredeg cyflwyniad HG (gweithgarwch yr Amgueddfa Lechi tra bod yr amgueddfa ar gau) ar ôl y cyfarfod hwn<br><br>**Prosiect LleCHI LleNI**<br><br>• Mae'r prosiect wedi arwain neu gymryd rhan mewn 83 o weithgareddau<br>• Mae 2,128 o bobl wedi cymryd rhan, gan gynnwys 1,188 o bobl ifanc a phlant<br>• Addysg: 43 o weithdai mewn 12 ysgol. 86 o adnoddau addysgol newydd<br>• £117,174 o arian grant wedi'i ddyfarnu i 21 grŵp cymunedol<br>• Nawr yn ail flwyddyn y prosiect 5 mlynedd. Bydd cynllunio effeithiol yn sicrhau ymgysylltu ystyrlon ym mhob rhan<br>• Mae'r grŵp gweithredu hefyd yn gwasanaethu fel grŵp llywio'r prosiect. Aethom drwy lwyddiannau LleCHI LleNI a'r nodau ac amcanion at y dyfodol yn fanwl yn ystod cyfarfod diwethaf y grŵp Gweithredu<br>• Mae'r camau nesaf yn cynnwys: mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y data a gasglwyd, gwefan STyB, strategaeth Porth a Rhwydwaith, grantiau i dirfeddianwyr, sesiynau STEM teuluol, sesiynau i fusnesau ac ati | **DA: cyflwyniad** |
| **6. Trefniadau rheoli risg** DA<br><br>**Troseddau treftadaeth**<br><br>• Cynnydd mewn troseddau treftadaeth, cydran 2 STyB<br>• Mae'r cyhoedd wedi lleisio pryder, gan gynnwys trwy'r wasg. Mae partneriaid wedi bod yn mynegi pryder<br>• Risg i dirwedd hanesyddol, hefyd risg i enw da<br>• Rydym yn y broses o drefnu ail gyfarfod: First Hydro, Parc Padarn, Cadw, Yr Amgueddfa Lechi a'r Heddlu<br>• Mae gan wefan Llechi Cymru dudalen bwrpasol ar droseddau treftadaeth<br>• Mae sesiynau ysgol wedi'u cynllunio<br>• Byddwn yn gofyn i'r Bwrdd am gymorth os byddwn yn dod ar draws unrhyw rwystrau (e.e. ymgysylltu â rhan-ddeiliaid yn y cyfarfod uchod). Byddwn hefyd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar gynnydd, cydweithio ac ati<br>• Rydym yn ceisio cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru i gofnodi ystadegau troseddau treftadaeth yn gywir<br>• Crynhodd KR fentrau eraill yn ymwneud â throseddau treftadaeth , a rhai heriau cysylltiedig, ar draws gweddill y wlad | |

| | |
|---|---|
| • Dolen i wybodaeth Cadw am droseddau treftadaeth: Troseddau Treftad-aeth \| Cadw. Efallai y byddai modd trosglwyddo rhywfaint o'r geiriad | |
| **7. Edrych tua'r gorwel** RE, HJ<br><br>• Cyfleoedd ariannu, blaenoriaethau<br>• Roedd amser y cyfarfod yn rhedeg drosodd ac felly roedd consensws i ailedrych ar hyn ym mis Medi, ac i agendâu'r is-grwpiau ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r dyfodol<br>• Gellid trefnu gweithdy ar flaenoriaethau'r dyfodol yn y cyfamser. Roedd RE yn annog partneriaid i gysylltu â ni os oes ganddynt unrhyw fewnbwn<br>• Bydd angen i brosiectau a ariennir yn y dyfodol daro'r cydbwysedd cywir rhwng cyfalaf a refeniw<br>• Gall canlyniad etholiad y Senedd effeithio ar y dirwedd ariannu<br>• Mae adroddiad blynyddol Llechi Cymru wedi cael ei anfon at ymgeiswyr y Senedd | |
| **8. Cynrychiolaeth gymunedol STyB** HJ<br><br>• Roeddem wedi cytuno i adolygu'r sefyllfa ar ôl blwyddyn. Nid yw'r holl gynrychiolwyr cymunedol yn bresennol heddiw<br>• Cam Gweithredu HJ: trefnu cyfarfod gyda'r cynrychiolwyr cymunedol presennol i adolygu'r sefyllfa | **HJ: cyfarfod** |
| **9. Unrhyw Fater Arall**<br><br>• Cam Gweithredu DA: cylchredeg papurau HG (darpariaeth yr Amgueddfa Lechi tra bod yr amgueddfa ar gau)<br>• Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol:<br>- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno i'r rhestr yw 27 Mawrth. Ni welai KR unrhyw geisiadau sy'n gysylltiedig â thirwedd llechi ar hyn o bryd. Gellir gweld y rhestr amser real yma<br>- Mae'r broses gyflwyno yn syml<br>- Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw syniadau ar gyfer cyflwyno | **DA: e-bost** |
| **10. Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>• 25 Medi fwy na thebyg – byddwn yn cadarnhau'n agosach at yr amser | **Cam Gweithredu: DA** |